Adroddiad i'r:	Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol
Dyddiad y cyfarfod:	21 Medi 2022
Aelod/Swyddog Arweiniol:	Julie Matthews / Steve Gadd
Awdur yr adroddiad:	Gerry Lapington
Teitl:	Adroddiad Blynyddol Iechyd a Diogelwch Corfforaethol

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Rheolaeth Iechyd a Diogelwch yn CSDd yn ystod 2021-2022.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Darparu sicrwydd i'r pwyllgor bod CSDd yn dilyn yr egwyddorion a ddisgrifir yn ei Bolisi Iechyd a Diogelwch Corfforaethol a'i fod yn mynd ati i hyrwyddo diwylliant Iechyd a Diogelwch cadarnhaol.

3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y pwyllgor yn nodi cynnwys yr adroddiad Iechyd a Diogelwch Corfforaethol ar gyfer 2021\2022 sydd ynghlwm.

4. Manylion yr adroddiad

Tîm o swyddogion Iechyd a Diogelwch yw Iechyd a Diogelwch Corfforaethol, sy'n darparu cyngor, canllawiau, asesiadau a hyfforddiant am faterion iechyd a diogelwch galwedigaethol ar draws y sefydliad. Nid oes gan y tîm unrhyw bwerau cyfreithiol i reoleiddio na gorfodi.

Caiff cefnogaeth Arbenigol Iechyd a Diogelwch yn CSDd ei darparu gan:

- Iechyd a Diogelwch Corfforaethol:
  - 1 Rheolwr Tîm / Ymgynghorydd
  - 1 Uwch Swyddog / Ymgynghorydd
  - 1 Swyddog / Ymgynghorydd
  - 1 Ymgynghorydd Cynorthwyol (rôl datblygu proffesiynol)
  - 1 Swyddog Risg Ffordd / Ymgynghorydd
  - 1 Swyddog Technegol (rhan amser, 3 diwrnod yr wythnos)

- Priffyrdd, Cyfleusterau a Gwasanaethau Amgylcheddol
  - 1 Swyddog / Ymgynghorydd (swydd wag ar hyn o bryd)
- Gwasanaeth Cyllid ac Eiddo
  - 1 Swyddog arbenigol Adeiladu / Ymgynghorydd
  - Tîm cydymffurfiaeth adeiladau sy'n gofalu am ddiogelwch cyfleusterau gan gynnwys nwy, trydan, systemau dŵr, asbestos a thân.
- Mae nifer o gynrychiolwyr Iechyd a Diogelwch yr undeb hefyd sy'n gweithio ar draws CSDd.

Mae'r tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol yn canolbwyntio ar:

- Datblygu ac adolygu polisi Iechyd a Diogelwch Corfforaethol
- Datblygu ac adolygu dogfennau canllawiau Iechyd a Diogelwch
- Ymateb i waith adweithiol a cheisiadau am gefnogaeth neu gyngor.
- Casglu, crynhoi ac adrodd am ddata damweiniau / digwyddiadau
- Ymchwiliadau i ddamweiniau / digwyddiadau
- Monitro / asesu rheolaeth Iechyd a Diogelwch mewn gweithleoedd CSDd
- Darparu hyfforddiant Iechyd a Diogelwch
- Cyngor, hyfforddiant a chanllawiau risg ffordd
- Cyngor, hyfforddiant a chanllawiau gweithredwyr peiriannau

Mae manylion gweithgareddau 2021 / 2022 a'r rhaglen gwaith i'r dyfodol yn yr Adroddiad Blynyddol Iechyd a Diogelwch Corfforaethol, atodiad 1, sydd ynghlwm
Mae'r ystadegau damweiniau / digwyddiadau wedi'u hatodi fel atodiad 2
Er gwybodaeth, mae'r polisi Iechyd a Diogelwch Corfforaethol wedi'i adolygu ac atodlen newidiadau wedi'i atodi fel atodiad 3

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Disgwylir safonau Iechyd a Diogelwch da ym mhob ardal a reolir gan yr awdurdod lleol ac mae hynny'n sail i'r holl Flaenoriaethau Corfforaethol.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Nid oes angen cyllideb ychwanegol.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

Dim angen (trafodwyd gyda Steve Price).

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

Dim.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Dim.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Amherthnasol.

11. Pŵer i wneud y penderfyniad

Amherthnasol.